***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2776 (Cy. 282)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Hydref 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 88E(**1**) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 93(**2**) o'r Ddeddf honno, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Tachwedd 2014.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

### Cyfnod rhagnodedig

**2.**—(1) Saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod rhagnodedig at ddibenion adran 88E(3) o Ddeddf 1990.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall yng Nghymru; ac

(**1**) 1990 p. 9. Mewnosodwyd adran 88E o Ddeddf 1990 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, O.S. 2014/2773 (Cy.280).
(**2**) Mae diwygiadau i adran 93 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw—

(a) o ran atgyfeiriadau o dan adran 12(**4**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r atgyfeiriad gan yr awdurdod cynllunio lleol;

(b) o ran apêl o dan adran 20(**5**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl, ynghyd â'r dogfennau a bennir yn rheoliad 12(2) o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(**6**); ac

(c) o ran apêl o dan adran 39(**7**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl a'r datganiad ysgrifenedig yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003(**8**).

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o
Weinidogion Cymru

14 Hydref 2014

(**4**) Mae diwygiadau i adran 12 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) Diwygiwyd adran 20 o Ddeddf 1990 gan adran 43(4)(a) a (b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae diwygiad arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) O.S. 2012/793 (Cy. 108).

(**7**) Diwygiwyd adran 39 o Ddeddf 1990 gan adran 25 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a pharagraff 3(2), (3) a (4) o Atodlen 3 iddi; ac erthygl 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Rhif 1) 2004, O.S. 2004/3156. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**8**) O.S. 2003/394 (Cy. 53).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 88E a 93 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu rhagflaenu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, a fewnosododd adran 88E yn Neddf 1990.

Mae adran 88E o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer rhai achosion yng Nghymru, sef achosion ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan adran 12 ac apelau o dan adrannau 20 a 39 o Ddeddf 1990. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer achosion o'r fath cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod hwnnw, sy'n cael ei ddiffinio at y dibenion hyn.

Paratowyd asesiad effaith mewn perthynas â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.